# Twristiaeth yng Ngwynedd ac Eryri

Hanner llongyfarchiadau ar gyhoeddi Cynllun Strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2023 sy'n cynnig gweledigaeth flaengar o fath gwahanol o dwristiaeth, sy'n fwy sensitif yn amgylcheddol a diwylliannol gyda mwy o fanteision i gymunedau. OND nid llongyfarchiadau llawn oherwydd nad oes ganddi'r canlynol: (a) dadansoddiad clir o'r hyn sydd o'i le ar y math o dwristiaeth sydd gennym ni a (b) nid yw'n dweud dim ynghylch sut rydym ni'n cyflawni'r weledigaeth o'r dwristiaeth y dylem ni ei chael.

## Yr her: buddion cymunedol cyfyngedig

### Cwestiwn: Beth sydd o'i le ar y fath o dwristiaeth sydd gennym ni?

### Ateb: Mae twristiaeth yn ddiwydiant mawr sy'n manteisio ar y galw a'r enillion o'r tu allan, ond sy'n cynhyrchu buddion cymunedol cyfyngedig.

- Mae twristiaeth a lletygarwch yn cyflogi 19% yn Ynys Môn a Gwynedd; ond ar gyflogau cyfartalog isel o fawr mwy na £10 yr awr a hynny am waith sydd yn aml yn rhan-amser a thymhorol.
- Mae marchnata gan Go North Wales yn cwmpasu "antur awyr agored" gyda Zip World ac ati, gan gyfeirio twristiaid at rai safleoedd gweithgareddau corfforaethol sydd, digwydd bod, yng Nghymru.
- Mae hunanarlwyo (nid gwestai a llety gwely a brecwast) yn teyrnasu. Felly'r gwariant twristiaeth mwyaf (a bron yn sicr y brif ffynhonnell elw o dwristiaeth) yw rhenti sy'n trosglwyddo incwm a chyfoeth i berchnogion eiddo, sy'n aml yn bobl o'r tu allan.
- Mae cynnydd platfform Airbnb ers diwedd y 2010au wedi cynyddu'n sydyn y pwysau ar y stoc dai leol. Mae llety cyfnod byr ar Airbnb yn cyfrif bellach am bron i draean o stoc dai rhent preifat Gwynedd.
- Mae hyn i gyd wedi'i guddio gan y dangosyddion STEAM am gyfaint mewn niferoedd a gwerth cyfanswm gwariant oherwydd bod y dangosyddion hyn yn awgrymu'n gyfeiliornus bod mwy yn well.

### Cwestiwn: Beth sy'n gyrru'r math o dwristiaeth sydd gennym ni?

### Ateb: Hwylustod cyllid preifat gyda pholisi cyhoeddus yn atgyfnerthu ac ymateb.

- Mae cyllid preifat (banciau, bondiau, ecwiti preifat) yn ariannu sefydliad a thwf safleoedd mawr oherwydd bod rhai llwyddiannus yn gwneud arian sylweddol. Mae morgeisi prynu i osod yn ariannu cyfalafwyr tai i drosi tai o fod yn llety tymor hir i arosiadau byr, gyda'r enillion mwy ar osodiadau byr yn annog hyn.
- Mae grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru a San Steffan yn atgyfnerthu'r duedd o gefnogi prosiectau preifat mawr fel Zip World a Surf Snowdonia. Yn yr achosion hyn, mae arian cyhoeddus yn hwyluso buddsoddiad preifat nad oes yn rhaid iddo ariannu cost gyfan prosiectau. Felly ceir cyllid cyhoeddus gydag addewidion o greu swyddi na chânt fyth eu gwirio.
- Ar ôl i bethau fynd o chwith, mae polisi Llywodraeth Cymru bellach yn ymateb drwy drin nid achosion ond symptomau pwysau twristiaid ar y stoc dai. Mae'n caniatáu

(nid yn gorfodi) awdurdodau lleol i gynyddu taliadau ar ail gartrefi a llety tymor byr a gosod terfynau cynllunio lleol ar nifer yr eiddo o'r fath. Os byddant yn gweithredu, bydd y mesurau hyn yn cyfyngu, ar y gorau, ar unrhyw ddifrod pellach.

- Mae polisi cyhoeddus yn fodlon â’r sefyllfa hyd nes y daw costau twristiaeth yn amlwg oherwydd ei fod wedi coleddu'r rhagdybiaethau "mae mwy yn well" sy'n sail i ddangosyddion agregau TEAM. Mae angen mwy o ymchwil yn hyn o beth oherwydd ni ellir llunio polisi seiliedig ar dystiolaeth a dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol pan nad ydym yn gwybod (a) o ran galw – beth yw patrwm gwariant y bobl hynny sy’n aros mewn carafannau a llety tymor byr ar wahanol agweddau a (b) o ran cyflenwi - pwy sy'n berchen ar y tai Airbnb tymor byr a'r meysydd carafanau ac felly sut, ac a yw, rhenti yn ailddosbarthu i fyny a/neu yn mynd allan o’r rhanbarth.

Felly, y cwestiwn yw sut i symud tuag at yr hyn y mae ar ffframwaith Cynllun Strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 ei eisiau, sef, twristiaeth fwy cyfrifol sy'n ymwneud â'n diwylliant a'n hanes, gyda mwy o fuddion cymunedol ac ôl troed ecolegol llai.

## Cyfle: Dylunio mwy o fanteision.

### Cam 1: Ailystyried datblygiad twristiaeth fel cyfle i adeiladu eco-system o gyfleusterau ar draws ardal (heb ychwanegu datblygiad un safle)

- Yr allwedd yw canolbwyntio nid ar un gweithgaredd ar safle fawr ond ar ddatblygiadau sydd wedi'u gwasgaru ar draws ardal bendant. Byddai maint a natur yr ardal yn amrywio e.e. (a) llwybr neu gylchdaith hawl tramwy ar gyfer cerdded neu feiciau neu (b) dyffryn neu fae ar lan y môr a ddiffinnir yn naturiol gan dopograffeg neu (c) ardal drefol ar ac oddi ar y stryd fawr.
- Nid y cwestiwn yw'r hyn y gallwn ni ei wasgu ar un atyniad safle ond sut y gallwn ni feithrin cysylltiadau cefnogol rhwng gwahanol gyfleusterau a ddefnyddir gan (fwy o) ymwelwyr a phobl leol mewn ardal? Gall y dull ardal fod yn fantais ecolegol os yw'n annog ymwelwyr sy’n teithio mewn ceir i barcio am y diwrnod, y penwythnos neu'r wythnos. Os ydym yn datblygu ardaloedd eilaidd, mae hynny'n ffordd ddefnyddiol o wasgaru niferoedd twristiaid sy'n lleihau'r pwysau ar gyrchfannau twristaidd poblogaidd.
- O ran cyflenwi, daw manteision cymunedol drwy gael llawer o gwmnïau teuluol bach a mentrau cymdeithasol yn yr ardal a’r cyffiniau. Dyma’r "perlau ar hyd y mwclis" yn gwasanaethu pob lefel incwm e.e. gyda llety o westai moethus i hundai, a chabanau eco rywle yn y canol. Mae'r buddion wedi'u gwasgaru rhwng microgwmnïau a busnesau bach a chanolig ond nid ydynt yn nwylo un perchennog corfforaethol sy'n casglu tollau am ddefnyddio un safle mawr.
- O ran galw, daw manteision cymunedol drwy ddefnyddwyr lleol a manteision cyfleusterau yn atal iechyd a lles gwael, yn enwedig yn yr awyr agored. Mae hyn yn ymwneud â mwy na phresgripsiynu cymdeithasol. Nid yw'r dull hwn yn ymwneud â gwneud lleoedd yn ddeniadol i dwristiaid 4 mis y flwyddyn ond â gwneud lleoedd yn ddeniadol i fyw ynddynt 12 mis y flwyddyn (a fydd yn denu twristiaid).

- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol sy'n mesur cynnydd wrth newid o dwristiaeth atyniad-un-safle fel y mae ar hyn o bryd i dwristiaeth eco-system fel y dylai fod. Byddai'r dangosyddion perfformiad allweddol o ran galw yn gysylltiedig â chadw gwariant y tu mewn i'r eco system a'r dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig â chyflenwi yn ymwneud â chynyddu nifer y cwmnïau bach cyfrifol ac abl.

## Cam 2: Adeiladu cynghrair trawsnewidiol o sefydliadau budd cymunedol i gwmpasu a chyflwyno ambell ecosystem fel prawf o gysyniad.

- Adeiladu cynghrair trawsnewidiol lleol o sefydliadau budd cymunedol i ddarparu pob ecosystem dwristiaeth mewn trafodaeth â chymunedau. Nid trafod ag awdurdod lleol ac awdurdod y parc yn unig, ond y bwrdd iechyd, cymdeithasau tai, sefydliadau cymunedol. Dylai pob corff neu sefydliad rannu gwerthoedd, cyllid a rheolaeth i ddatblygu cynllun cyraeddadwy trwy dair tasg sy'n gorgyffwrdd ar un neu ddwy system fel prawf o gysyniad.
- Tasg 1 yw datblygu sylfaen wybodaeth am ddefnyddwyr a chyfleusterau presennol yn yr ardal. Ymchwil ynghylch pwy sy'n defnyddio cyfleusterau presennol a sut, sy'n nodi bylchau yn y ddarpariaeth seilwaith ac yn hwyluso darpariaeth ac sy'n caniatáu amcangyfrifon realistig o'r galw posib mewn amrywiol gyfleusterau.
- Tasg 2 yw cynhyrchu cynllun datblygu seilwaith. Bydd angen buddsoddiad diriaethol ar y rhan fwyaf o ecosystemau (e.e. arwyddion, hawliau tramwy, cynnal a chadw llwybrau ac ati) a buddsoddiad digidol mewn marchnata ar-lein. Hefyd, ychwanegu rhai trefniadau rheoli a llywodraethu sylfaenol.
- Tasg 3 yw llunio cynllun datblygu cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau twristiaeth sydd ar gael mewn ardal neu ar hyd llwybr. Darparu cyfleusterau angenrheidiol (e.e. trosglwyddo bagiau) a pheidio ag annog cystadleuaeth o ran busnesau cyffredin (e.e. caffis).
- O ran cyllid, byddai'r gynghrair yn pwyso am ailgyfeirio grantiau a benthyciadau cyhoeddus o brosiectau mawr unigol i ychwanegu at yr arian y gall microfusnesau a busnesau bach a chanolig teuluol a mentrau cymdeithasol ei ddefnyddio i sefydlu neu ehangu cyfleusterau twristiaeth. Byddai cronfa her yn ffordd dda o roi hwb i chwistrelliad o fuddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau cyfleusterau.
- Cynnig consesiynau treth i fusnesau cyfleusterau bach e.e. busnesau bach sydd wedi'u heithrio o'r ardoll sydd ar ddod ar gyfer ymwelwyr dros nos. A chyfeirio enillion o'r ardoll ymwelwyr dros nos i grantiau cyfalaf a benthyciadau ar gyfer cyfleusterau mewn eco system dwristaidd newydd.
- O ran cwmnïau corfforaethol sy'n rhedeg atyniadau safle unigol sy'n cynhyrchu arian mawr, fel Zip World, byddem yn disgwyl iddynt ychwanegu at yr ardoll ymwelwyr dros nos trwy ddegymu cyfran o'u henillion. Gellid defnyddio mesur cyfrifo ebitda[1] o enillion nid elw oherwydd ceir elw ar ôl talu llog, ac mae gan Zip World ddyled fawr.

[1] Mae enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio yn ffordd gyffredinol o gynrychioli llif arian o weithrediadau.

- Yn y tymor hwy, annog perchnogaeth gymdeithasol o eiddo a osodir am gyfnodau byrion, h.y. bron yn sicr yr agwedd sy'n gwneud yr elw mwyaf o ran refeniw'r busnes twristiaeth. Gallai'r wladwriaeth ddarparu cyfalaf colled cyntaf ar bryniannau morgais / datblygiadau safle gan fentrau cymdeithasol pan na fydd benthycwyr preifat yn benthyca cost lawn y datblygiad.

Gallwn gael twristiaeth wahanol sy'n fwy cyfrifol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol ond dim ond os ydym yn gweithredu gyda'n gilydd i'w meithrin

Sylwer. Cynhyrchwyd y briff hwn ar ôl trafodaeth ymhlith y rhai a gymerodd ran ym mhrosiect ymchwil cymunedol y tri dyffryn llechi a ariannwyd gan UKRI. Am fwy o wybodaeth neu i gael sgwrs gychwynnol, cysylltwch â:

naill ai Cynan Jones post@ogwen.org neu Jo Quinney joq@foundationaleconomy.wales